

## Y Llysoedd Ynadon

### Protocol ar gyfer Rhestru Achosion lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio

Mae Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gydradd wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Dylech ddilyn y canllawiau isod pan roddir gwybod i'r llys fod parti neu unrhyw dyst yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod unrhyw ran o achos. Dylid nodi, yn unol ag Adran 22(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

*“ Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw llys ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn.”*

Nid oes rhwymedigaeth ar unigolyn i roi rybudd ymlaen llaw yn y Llys Ynadon cyn arfer ei hawliau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mater o ddewis i'r unigolyn ei hun yw defnyddio'r iaith. Ei ddewis ef neu ei dewis hi

## Magistrates' Courts

### Protocol for Listing Cases where the Welsh Language is used

Her Majesty's Courts Service has adopted the principle that in the conduct of public business and the administration of justice in Wales it will treat the English and Welsh languages on a basis of equality.

The following guidance should be followed when the court is informed that a party or any of the witnesses wishes to use Welsh during any part of the proceedings. It should be noted that in accordance with Section 22(1) of the Welsh Language Act 1993

*“ In any legal proceedings in Wales the Welsh language may be spoken by any party, witness or other person who desires to use it, subject in the case of proceedings in a court other than a magistrates' court to such prior notice as may be required by rules of court; and any necessary provision for interpretation shall be made accordingly.”*

There is no obligation for an individual to give prior notice in the Magistrates' Court before exercising rights under the Welsh Language Act 1993.

The use of the language by the individual follows the choice of that individual. The

yw'r ffactor pwysig yn hytrach nag unrhyw anhawster i ddeall. Felly, mae gan unigolyn sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn achos yr hawl i wneud hynny ac ni ddylai fod gofyn iddo gyfiawnhau hynny na chyfyngu ar faint o ddefnydd a wna o'r iaith. Nid yw'r ffaith bod yr unigolyn yn ddwyieithog ac yn gymwys yn y Saesneg yn effeithio nac yn cyfyngu ar ei hawl i ddefnyddio'r Gymraeg. O ran egwyddor cydraddoldeb, mae'n hanfodol nad yw defnyddio'r Gymraeg yn arwain at unrhyw anfantais i unrhyw un o'r partïon na'r tystion oherwydd oedi cyn rhestru neu ddiffygion yn y trefniadau a wneir i gael cyfieithu ar y pryd. Mae'r Protocol hwn yn berthnasol i bob achos a gynhelir yn y Llysoedd Ynadon, gan gynnwys gwrandawriadau sifil, teulu, gorfodi dirwyon ac unrhyw wrandawriadau panel arbenigol.

#### **Y protocol sydd i gael ei ddilyn:**

1. Pan ddaw gwybodaeth i law y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn unrhyw achos, dylid gwneud trefniadau lle bynnag y mae hynny'n bosibl i fwrw ymlaen â'r achos hwnnw heb ei ohirio.
2. Ni fydd wastad yn bosibl bwrw ymlaen heb ohirio felly dylid annog partïon i fanteisio ar gyfleoedd i roi rhybudd eu bod am ddefnyddio'r Gymraeg, er enghraifft:
  - Rhaid dweud wrth bob diffynnydd, ceisydd neu barti mewn achos am ei hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r

important factor is his or her choice rather than any difficulty with his or her understanding. Accordingly, the individual who wishes to use Welsh in the proceedings, has the right to do so and should not be required to justify or limit the extent to which he does so. The fact that the individual is bilingual and is competent in English does not affect or limit his right to use the Welsh language. Having regard to the principle of equality, it is essential that the use of Welsh does not result in any disadvantage to any of the parties or the witnesses by reason of delay in listing or deficiencies in the arrangements made for interpretation. This Protocol applies to all proceedings conducted in the Magistrates' Courts including civil, family, fines enforcement and any specialist panel hearings.

#### **Protocol to be followed:**

1. When information is received that the Welsh language will be used in any case, arrangements should be made where possible for that case to proceed without adjournment
2. It will not always be possible to proceed without an adjournment and therefore parties should be encouraged to take advantage of opportunities to give notice, for example:
  - Every defendant, applicant or party to proceedings must be informed of their right to use Welsh or English at the

Saesneg ar y cyfle cyntaf posibl a dylid eu gwahodd i roi gwybod i'r llys ymlaen llaw beth yw eu dewis;

- Dylai pob gwrandawriad rheoli achos, adolygiad cyn treial a gwrandawriad pennu treial sefydlu dewis iaith diffynyddion, partion a thystion;
- Yn y gwrandawriad cyntaf yn y llys achosion teulu, rhaid i'r clerc gael gwybod a fydd unrhyw barti'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn yr achos. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau beth yw iaith gyntaf unrhyw blentyn sy'n rhan o'r achos, a lle bo hynny'n briodol, sicrhau bod Gwarcheidwad dwyieithog yn cael ei bennu/phennu i weithredu ar ran y plentyn.

3. Pan fydd rhaid gohirio achos, dylai cadeirydd y fainc neu'r Barnwr Rhanbarth egluro'r rhesymau dros ohirio yn ofalus.
4. Pan na fydd rhybudd wedi cael ei roi ymlaen llaw ac nad yw'r ynadon a'r cynghorydd cyfreithiol sydd yn y llys yn ddwyieithog, dylid ystyried y posibilrwydd o wneud trefniadau brys fel bod modd i'r achos fynd rhagddo heb orfod gohirio lle mae'r trefniadau hynny yn ymarferol o fewn rheswm dan yr amgylchiadau a bod y partion yn cytuno. Rhoddir enghreifftiau yn Atodiad A. Mater i'r llys unigol yn llwyr fydd

earliest opportunity and should be invited to give prior notice of that choice to the court;

- Every case management, pre-trial review or trial fixing hearing should establish the language choice of defendants, parties and witnesses;
- At the first hearing in the family proceedings court, the clerk shall ascertain whether any party wishes to use Welsh in the proceedings. It is particularly important to ascertain the first language of any child who is the subject of the proceedings and where appropriate, ensure that a bilingual Guardian is appointed to act for the child.

3. When a case has to be adjourned the chairman of the bench or District Judge should carefully explain the reasons for that adjournment.
4. When prior notice is not given and the court is not constituted of bilingual magistrates and a bilingual legal adviser, consideration should be given to the possibility of making emergency arrangements to allow the case to proceed without adjournment where those arrangements are reasonably practicable under the circumstances and the parties agree. Examples are provided at Annexe A. It will be entirely a matter for the

hyn ym mhob achos ac nid yw'r enghreifftiau yn cynnwys pob opsiwn posibl nac yn rhwymo unrhyw lys unigol. Dylai'r penderfyniad a wneir gael ei gyhoeddi yn y llys agored.

5. Pan geir rhybudd ymlaen llaw dylid gwneud trefniadau yn ddieithriad ym mhob treial i'r fainc neu'r Barnwr fod yn ddwyieithog ac mae'n arfer da hefyd i drefnu i'r cynghorydd cyfreithiol fod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, pan fydd treialon o'r fath yn gymhleth neu fod a wnelont â honiadau difrifol, dylai Clerc yr Ynadon hefyd drefnu fod y cynghorydd cyfreithiol yn ddwyieithog.
6. Pan geir rhybudd ymlaen llaw mewn unrhyw fath arall o achos, dylid gwneud trefniadau priodol i'r fainc fod yn ddwyieithog gan nodi, lle nad oes tystiolaeth yn cael ei rhoi, fod modd cael mainc nad oes ond dau aelod arni. Yn dibynnu ar y math o wrandawriad, efallai y bydd yn dderbyniol hefyd gwneud rhai o'r trefniadau a amlinellwyd yn Atodiad A neu drefnu i gyfieithwyr gael eu penodi. Mater i'r llys unigol yn llwyr, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4, yw gwneud y penderfyniad hwnnw.
7. Lle nad oes angen cyfieithydd mewn achosion lle caiff y Gymraeg ei defnyddio, gall y cadeirydd benderfynu cyhoeddi penderfyniad y llys yn y Gymraeg a'r Saesneg os oes raid er budd unigolion eraill, nad oes ganddynt ran yn yr achos,

individual court in every case and these examples are neither exclusive nor binding on any individual court and the decision taken should be announced in open court.

5. When prior notice is received arrangements should be made without exception in all trials for the bench or Judge to be bilingual and it is also good practice to arrange for the legal adviser to be bilingual. However, when such trials are complex or relate to serious allegations the Justices' Clerk should also arrange for the legal adviser to be bilingual.
6. When prior notice is received in any other type of case' appropriate arrangements should be made for the bench to be bilingual noting, that where evidence is not given the bench could be constituted of only two magistrates. Depending on the type of hearing it may also be acceptable to undertake some of the arrangements outlined in Annex A or arrange for translators to be appointed. It is entirely a matter for the individual court, as outlined in paragraph 4, to take that decision.
7. Where a translator is not required in cases where Welsh is used, the chairman may decide to pronounce the decision of the court in both Welsh and English if that is necessary for the benefit of other individuals, not party to the proceedings,

sydd efallai yn bresennol yn y llys ac nad ydynt yn ddwyieithog e.e. y wasg.

who may be present in court who are not bilingual e.g. the press.

### Cyfieithwyr

8. Pan fydd unrhyw unigolyn yn dewis tystio yn Gymraeg, rhaid i unrhyw gwestiynau a ofynnir yn Saesneg gael eu cyfieithu i'r Gymraeg er ei fudd. Pan fydd angen cyfieithu i'r Saesneg a'r Gymraeg, rhaid cael  **dau**  gyfieithydd yn bresennol. Hyd yn oed yn yr achosion hynny pan nad oes angen cyfieithu ond i un iaith (e.e. pan fydd y ddau adfocad yn siarad Cymraeg), mae angen dau gyfieithydd ar gyfer unrhyw wrandawriad pan fyddai gofyn i'r cyfieithydd gyfieithu am unrhyw gyfnod o amser fel bod y cyfieithwyr yn cael seibiannau rheolaidd ac aml heb ohirio nac ymestyn hyd y gwrandawriad yn ddianghenraid.
9. Dim ond cyfieithwyr ar y rhestr gymeradwy y ceir eu defnyddio. Mewn rhai achosion eithriadol pan fydd plant yn dystion neu pan fydd materion anarferol o gymhleth er enghraifft, ac y byddai'n dda o beth cael cyfieithwyr neilltuol o fedrus a phrofiadol, dylid ymgynghori â'r Uned Iaith Gymraeg ynghylch dewis cyfieithydd.
10. Dylid rhoi pob cymorth i'r cyfieithwyr i baratoi ar gyfer y gwrandawriad a chaniatáu iddynt weld, neu roi copïau iddynt o, ddatganiadau'r tystion a chopïau o'r gwŷs / cyhuddiad cyn y gwrandawriad er mwyn rhoi

### Interpreters

8. When any individual chooses to testify in Welsh any questions, put in English, must be translated into Welsh for his benefit. When there is a need for translation into English and Welsh, it is essential to have  **two**  interpreters present. Even in those cases when the case only requires translation into one language (e.g. when both advocates speak Welsh), two interpreters are required for any hearing when the interpreter would have to translate for any length of time so that the interpreters have regular and frequent breaks without delaying or extending the length of the hearing unnecessarily.
9. Only interpreters on the approved list may be used. In certain exceptional cases when there are child witnesses or issues of unusual complexity for example, and it would be desirable to have especially skilled and experienced interpreters, the Welsh Language Unit should be consulted as to the choice of interpreter.
10. The interpreters should be given every assistance in preparing for the hearing and allowed access to, or be given copies of, the witness statements and copies of the summons/ charge before the hearing to

amser iddynt i baratoi a nodi unrhyw derminoleg anarferol neu arbenigol a allai gael ei defnyddio yn ystod y gwrandawriad.

allow them time to prepare and to note any unusual or specialist terminology which may be used during the hearing.

11. Rhaid i'r llys sicrhau bod copïau dwyieithog o bob llw/cadarnhad ar gael yn ystafell y llys.

11. The court must ensure that bilingual copies of all oaths /affirmations are available in the courtroom

### **Offer Cyfieithu**

12. Yn y rhan fwyaf o wrandawriadau mewn Llysoedd Ynadon bydd cyfieithwyr yn defnyddio eu hoffer eu hunain, ond bydd angen cadarnhau hyn wrth eu comisiynu. Os defnyddir offer y llys gan y cyfieithydd bydd angen ei brofi o leiaf 7 diwrnod cyn y gwrandawriad i roi digon o amser i gael gafael ar offer ychwanegol neu, os oes raid, ar wasanaethau peiriannydd. Yn arbennig, rhaid i'r llys sicrhau bod digon o glustffonau ar gael i bawb sy'n ymwneud â'r achos. Rhaid sicrhau bod clustffon amgaeedig arbennig sy'n gallu cymryd dwy sianel, ar gael i dystion fydd yn cael eu holi gan adfocad sy'n siarad Saesneg neu ar gyswllt fideo.

13. Bydd angen gofal arbennig a chynllunio pan fo cyfieithu yn ffactor mewn achosion mesurau arbennig a lle bo'r angen gellir cysylltu â'r Uned Iaith Gymraeg.

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Roderick Evans

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Nigel Davis

Tachwedd 2007

### **Translation Equipment**

12. In most hearings in Magistrates' Courts interpreters will bring their own translation equipment, but this needs to be clarified when commissioning their services. If the court's equipment is to be used by the translator, then it must be tested at least 7 days before the hearing to allow time to obtain any additional equipment or, if necessary, the services of an engineer. In particular, the court must ensure that there are sufficient headsets for all involved in the case. There must be a special enclosed headset capable of taking two channels for witnesses who will be questioned by an English speaking advocate or on video link.

13. Special care and planning needs to be put in place where translation is a consideration in special measures cases and where necessary the Welsh Language Unit can be contacted

The Honourable Mr Justice Roderick Evans

The Honourable Mr Justice Nigel Davis

November 2007

## ATODIAD A

1. Mewn achos lle nad oes tystiolaeth yn cael ei rhoi a bod y ffeithiau'n syml a chymharol ddibwys, e.e. meddw ac afreolus neu oryrru ac mai dim ond y cadeirydd sy'n ddwyieithog, gellir bwrw ymlaen â'r achos gyda'r cadeirydd yn cyfieithu yn y llys neu yn yr ystafell ymneilltuo cyn dedfrydu.
2. Pan fydd mwy nag un llys yn eistedd, efallai y bydd yn bosibl ymneilltuo i ad-drefnu aelodaeth y meinciau fel bod modd ffurfio mainc ddwyieithog.
3. Mewn achos lle mae'r partïon i gyd yn ddwyieithog ar wahân i'r erlynydd neu'r swyddog prawf, efallai y bydd yn bosibl defnyddio'r cynghorydd cyfreithiol i gyfleu'r wybodaeth neu gynorthwyo'r swyddogion hynny.
4. Lle mae'r llys yn cynnwys ynadon a chynghorydd cyfreithiol ac mai dim ond un ynad sy'n ddwyieithog, efallai y bydd yn bosibl i'r unigolyn hwnnw gymryd y ble neu ymdrin â faterion rhagarweiniol eraill cyn gohirio'r achos.
5. Lle nad yw'r fainc yn ddwyieithog ond fod y cynghorydd cyfreithiol yn ddwyieithog, mae'n bosibl i'r trefniadau cyn treial gael eu gwneud gyda'r cynghorydd cyfreithiol yn gweithredu fel cyfieithydd i'r fainc neu gall y

## ANNEX A

1. In a case where evidence is not given and the facts are simple, straightforward and relatively minor e.g. drunk and disorderly or speeding and only the chairman is bilingual matters can proceed with the chairman translating in court or in the retiring room before sentencing.
2. When more than one court is sitting it may be possible to retire to arrange for the benches to be reconstituted to allow a bilingual bench to be formed.
3. In a case where all the parties are bilingual with the exception of the prosecutor or probation officer it may be possible to use the legal adviser to inform or assist those officers.
4. Where the court is constituted of magistrates and a legal adviser with only one magistrate who is bilingual then it may be possible for that individual to take the plea or deal with other preliminary matters before adjourning the case.
5. Where the bench is not bilingual but the legal adviser is bilingual it is possible for pre-trial arrangements to be made with the legal adviser acting as a translator for the bench or the legal adviser can deal with all

cynghorydd cyfreithiol ddelio â'r materion i gyd ei hun lle maent o fewn ei bwerau dirprwyedig barnwrol ef neu hi.

6. Ym mhob achos lle mai penderfyniadau gweinyddol pur sy'n cael eu gwneud, gall ynad dwyieithog gyhoeddi penderfyniad y llys yn y ddwy iaith lle nad yw'r cynghorydd cyfreithiol na'r ynadon eraill yn ddwyieithog.
7. I'r gwrthwyneb, pan wneir penderfyniadau pwysig e.e mechnïo, dedfrydu neu dreial, lle bo dau aelod dwyieithog ar y fainc a'r trydydd aelod yn Ddi Gymraeg, yna gallai'r trydydd aelod beidio â chymryd rhan yn yr achos i arbed ei ohirio.

matters himself where they are within his or her judicial delegated powers.

6. In all cases where purely administrative decisions are being taken a bilingual magistrate can pronounce the decision of the court in both languages where neither the legal adviser nor the other magistrates are bilingual.
7. In contrast where decisions of substance are to be taken e.g bail, sentence or trial where the bench consists of two bilingual magistrates and a third member who is not bilingual that third member could stand down to avoid adjourning the case.